# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Catherine Hunt**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

**(Rhag-gyfarfod 9.15 - 9.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(9.30)

## 2 Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(9.30-11.30) (Tudalennau 1 - 32)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Simon Tew, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru

Ruth Cornick, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

## 3 Papurau i'w nodi

(Tudalen 33)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**

(Tudalennau 34 - 35)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o gyfarfod y Pwyllgor ar 10 Ionawr 2024

(11.30)

## 5 Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) - trafod y dystiolaeth

(11.30 - 12.00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**13 Rhagfyr 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| Rhif y papur | Mater | Oddi wrth | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| Papur 1 | Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | Y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | I'w nodi |

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: JJ/PO/420/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Caerdydd
CF99 1SN

6 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr ar 7 Tachwedd ynghylch gweithio gyda Llywodraeth y DU i archwilio cydweithio er mwyn gwahardd yr arfer gwahaniaethol o nodi gwaharddiad "dim DSS" a "dim Plant" ('gwaharddiad llwyr') mewn eiddo gosod preswyl yng Nghymru.

Gosodwyd y gwelliannau sy'n ceisio gwahardd yr arfer hwn ar 14 Tachwedd, ac ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn gweithio ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yr wyf yn gobeithio gallu ei osod cyn gynted â phosibl.

Mewn ateb i'ch cwestiynau penodol, o ran eich pwynt bwled cyntaf, gallaf gadarnhau fy mod yn mynd ar drywydd y cynigion ar gyfer gwaharddiad llwyr mewn Bil Cymru a Lloegr. Er y byddai'r cynigion ynghylch y gwaharddiad llwyr wedi bod yn rhywbeth y gellid bod wedi'i gynnwys mewn Bil Senedd Cymru, nid oes cyfle o fewn y Rhaglen Ddeddfwriaethol bresennol i wneud hynny. Rwyf o'r farn na ellir aros tan dymor y Senedd nesaf i ystyried gwahardd arferion gwahaniaethol o'r fath, ac mae cyfle i fynd i'r afael â hyn mewn Bil Cymru a Lloegr sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, ac rwy'n awyddus ein bod yn cymryd y cyfle. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion a nodwyd gan y Prif Weinidog ynghylch pryd y mae'n briodol dilyn dull deddfwriaethol ar y cyd. Byddai peidio â gwneud hynny pan fydd y cyfle yn codi yn golygu y byddai tenantiaid yng Nghymru yn dal i fod yn ddarostyngedig i arferion o'r fath am fod yn hawlydd budd-daliadau yn unig, neu am fod â phlant yn byw gyda hwy neu'n ymweld â hwy mewn annedd sydd yn destun contract meddiannaeth.

Bydd manylion darpariaethau gwaharddiad Cymru yn cael eu nodi'n llawn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ond mae gwahaniaethau sylweddol yn null Cymru. Er enghraifft, mae gorfodi yng Nghymru yn dilyn yr hyn sydd eisoes ar waith o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, gydag Awdurdod Pwysau a Mesurau lleol yn gorff gorfodi ychwanegol. Bydd yn drosedd i landlord neu berson sy'n gweithredu, neu'n honni eu bod yn gweithredu ar ran landlord, wahaniaethu mewn perthynas â chontractau meddiannaeth yn erbyn personau a fyddai â phlant yn byw gyda hwy neu'n ymweld â hwy, neu sy'n hawlwyr budd-daliadau, tra byddai toriadau o'r fath yn golygu cosb ariannol yn Lloegr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n cytuno'n llwyr â'ch sylwadau mewn perthynas ag alinio'r mesurau hyn â deddfwriaeth ehangach Rhentu Cartrefi yng Nghymru. Dyna pam mai'r dull a gymerir o ran y gwelliannau yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) yw diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, yn ogystal â Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, fel eu bod wedi'u hintegreiddio, yn hytrach na'u bod ar wahân i'n fframwaith Rhentu Cartrefi. Mae Deddf 2016 yn cael ei diwygio i sicrhau y gall deiliad y contract o dan gontract meddiannaeth ganiatáu i berson nad yw wedi cyrraedd 18 oed i fyw yn yr annedd neu ymweld ag ef (ar yr amod bod unrhyw ymyrraeth gan y landlord yn fodd cymesur o gyflawni amcan dilys), a hawl i hawlio budd-daliadau. Mae'r rhain yn cael eu gwneud yn delerau sylfaenol ar gyfer pob contract meddiannaeth.

O ran eich ail bwynt bwled ynghylch amseriad yr ymgynghoriad a'r gwelliannau arfaethedig, mae'r Bil Rhentwyr (Diwygio) yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd, a chytunwyd ar y gwelliannau hyn gan Bwyllgor y Bil yn ystod eu hystyriaethau Cyfnod 2. Nid oes gennym ddyddiadau penodol ar gyfer y camau nesaf, ond mae'r Cyfnod Adrodd a Thrydydd Darlleniad y Bil wedi eu trefnu ar gyfer yn ddiweddarach y gaeaf hwn.

Er nad oes gennyf unrhyw gynlluniau i ymgynghori ar y newidiadau hyn, gan na fu hyn yn bosibl oherwydd pa mor gyflym y bu'n rhaid gwneud y gwelliannau o ran y gwaharddiad llwyr, hoffwn bwysleisio nad yw'r pryderon sy'n cael sylw gan y gwelliannau yn newydd. Nid oes gennyf reswm chwaith i gredu bod y sefyllfa yng Nghymru mewn perthynas â'r arferion hyn yn sylweddol wahanol i'r hyn a nodwyd yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn Lloegr. Felly, rwyf o'r farn bod cynyddu amddiffyniad i denantiaid yn y modd a gynigir yn gwbl briodol a dylid ei wneud ar yr un pryd ag y caiff arferion gwahaniaethol o'r fath eu gwahardd yn Lloegr.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change